Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Yr Adran Orthopteg

# Llawfeddygaeth ar gyfer Llygad Croes

# Gwybodaeth i gleifion

---

**Llawfeddygaeth ar gyfer Llygad Croes**
Rydych chi'n ystyried llawfeddygaeth i chi neu eich plentyn i gywiro llygad croes (llygad yn troi i mewn, allan neu'n crwydro i fyny neu i lawr).

Tra byddwch chi'n aros ar y rhestr aros am lawfeddygaeth llygad croes, bydd yr Orthoptydd yn eich gweld yn rheolaidd i fesur faint mae'r llygad yn troi ac yn monitro unrhyw newidiadau.  Dylid gwisgo sbectol yn ôl y cyngor a gafwyd.

**Mae'n bwysig cadw at bob apwyntiad.  Os na fyddwch chi'n mynychu apwyntiad, bydd eich lle ar y rhestr aros yn cael ei affeithio.**

Bydd y llawdriniaeth yn cael ei chynnal fel achos dydd o dan anaestheteg gyffredinol a bydd yn golygu aros yn yr ysbyty am tua hanner diwrnod.  Weithiau, mae'n rhaid i gleifion aros dros nos.

**Nod y llawfeddygaeth**
- Gwella ymddangosiad cosmetig y llygad (nid o reidrwydd i'w wneud yn 'syth').
- Gwella gallu'r ddau lygad i weithio gyda'i gilydd fel pâr.  Nid yw bob amser yn bosibl cyflawni hyn.
- Lleddfu symptomau gweld dwbl.
- Lleddfu dal y pen yn anghyfforddus.

**Pwyntiau i'w cofio:**
- Ni fydd llawfeddygaeth llygad croes yn gwella'r golwg.  Os bydd y person yn gwisgo sbectol, bydd yn dal i orfod gwneud ar ôl y llawfeddygaeth.
- Os yw eich plentyn yn gwisgo clwt neu'n cael diferion Atropine i drin llygad diog, gall hyn fod yn angenrheidiol hefyd ar ôl llawfeddygaeth.
- Bydd maint y llawfeddygaeth yn dibynnu ar faint y llygad croes gyda sbectol, os bydd yn gwisgo un.  Mae'n bosibl y bydd llygad croes amlwg o hyd heb sbectol. **Cofiwch ddod â'ch sbectol ar ddiwrnod eich llawfeddygaeth.**
- Os ydych chi'n gwisgo lensys cyffwrdd, ni ellir gwisgo'r rhain am 6 wythnos ar ôl y llawfeddygaeth.  Cofiwch fod gennych sbectol i'w defnyddio ar ddiwrnod y llawfeddygaeth a'r 6 wythnos ddilynol.
- Os oes gennych brism yn eich sbectol, bydd yn rhaid newid nerth y prism ar ôl llawfeddygaeth.
- Weithiau, mae angen mwy nag un llawdriniaeth.  Mae'n bosibl y bydd angen llawfeddygaeth bellach os bydd y llygad croes yn mynd yn fwy yn y dyfodol.

**Y llawfeddygaeth:**
Bydd y llawfeddyg yn trin y cyhyrau sy'n symud y llygad drwy newid eu safle (i'w gwanhau) neu eu byrhau (i'w cryfhau). Gellir gwneud hyn ar:

- Un neu ddau gyhyr o un llygad.
- Un cyhyr mewn un llygad. Gall hyn olygu llawfeddygaeth ar y ' llygad da'.
- Weithiau cynhelir llawdriniaeth ar dri neu bedwar cyhyr ar yr un pryd.
- Os bydd angen 'Llawfeddygaeth Llygad Croes Addasadwy', byddan nhw'n trafod hyn gyda chi.

**Ar ôl y llawfeddygaeth:**

- Bydd darn gwyn y llygad yn edrych yn goch ac wedi chwyddo am 2-3 wythnos. Bydd hyn yn mynd yn llai gydag amser ond gall gymryd sawl mis i wella'n iawn. Mae'n bosibl y bydd y pwythau'n amlwg a gallan nhw gymryd 4-6 wythnos i doddi.
- Weithiau, mae gwyn y llygad yn cael ei adael yn binc am byth. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd ar ôl ail lawdriniaeth ar yr un cyhyr.
- Mae'n bosibl y bydd rhai cleifion yn cael golwg dwbl. Mae hyn fel arfer yn lleddfu ar ôl ychydig wythnosau ond os bydd yn para, cysylltwch â'r Clinig Orthopteg.
- Mae'n bosibl y bydd angen wythnos o'r gwaith/ ysgol.
- Dim nofio am 6 wythnos.
- Ni ddylid gwisgo lensys cyffwrdd am 6 wythnos.
- Byddwch yn cael apwyntiad gyda'r Orthoptydd ymhen 2-3 wythnos.

Mae hefyd yn bwysig mynychu apwyntiadau ar ôl y llawfeddygaeth i fonitro llwyddiant y llawfeddygaeth ac i drafod unrhyw driniaeth bellach a all fod yn angenrheidiol.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**